**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU TROSEDD AC ANRHEFN**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE CRIME AND DISORDER**

**Dyddiad ac Amser / Date and Time**

**10:00am, DYDD MAWRTH, CHWEFROR 24ain, 2015**

**10.00am, TUESDAY, 24th of FEBRUARY, 2015**

***NODER / NOTE***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei weddarlledu / This meeting will be webcast**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Lowri Haf Evans (01286 679 878)**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 16.02.2015

**Aelodaeth/Membership (18)**

**Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Daniels | Annwen Hughes |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Eurig Wyn | |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Llywarch Bowen Jones | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Unigol / Individual Member (1)**

Louise Hughes

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-Chairman of the Council

## RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2014/15

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2014, fel rhai cywir

(copi yma papur **gwyn**)

**RHAN 1**

**6. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Cyflwyno adroddiad ar ddatblygiad strategol y bartneriaeth gan Reolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn

(copi yma papur **glas**)

**<u>RHAN 2</u>**

**7. MAES PARCIO LLYN BACH, PORTHMADOG**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Craffu penderfyniad yr Aelod Cabinet ac ystyried adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio

i. Adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio

ii. Taflen benderfyniad y Cabinet 15.1.15

iii. Cynllun Trosglwyddo Tir

(copiau yma papur **gwyn**)

**8. STRATEGAETH WASTRAFF: NEWID I GASGLU GWASTRAFF GWEDDILLIOL**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried Adroddiad Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

(copi yma papur **melyn**)

**9. CANOLFANNAU HAMDDEN – DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD HAMDDEN GAN *JUST SOLUTIONS***
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Mair Rowlands**

Ystyried Adroddiad Pennaeth Economi a Chymuned

(copi yma papur **pinc**)

# AGENDA

**1. WELCOME AND APOLOGIES**

To accept any apologies for absence.

**2. VICE CHAIRMAN**

To elect a Vice-chairman for 2014/15

**3. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**4. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**5. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee, held on 2 December, 2014, be signed as a true record.

(copy herewith – **white** paper)

**PART 1**

**6. ANNUAL COMMUNITY SAFETY PARTNERSHIP UPDATE**
**Cabinet Member – Councillor Dafydd Meurig**

Report submitted by Delivery Manager Community Safety Gwynedd and Môn on the strategic development of the Partnership

(copy herewith – **blue** paper)

**PART 2**

**7. LLYN BACH CAR PARK, PORTHMADOG**
**Cabinet Member – Councillor Dafydd Meurig**

Scrutinise the Cabinet Members decision and consider the Head of Regulatory Department's report

i. Head of Regulatory Department's Report

ii. Cabinet Decision Notice 15.1.15

iii. Land transfer plan

(copies herewith – **white** paper)

**8. WASTE STRATEGY: CHANGES TO RESIDUAL WASTE COLLECTION**
**Cabinet Member – Councillor John Wynn Jones**

Consider Head of Highways and Municipal report

(copy herewith – **yellow** paper)

**9. LEISURE CENTRES – UPDATE ON THE LEISURE REVIEW BY *JUST SOLUTIONS***
**Cabinet Member – Councillor Mair Rowlands**

Consider report of Head of Economy and Community

(copy herewith – **pink** paper)

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2.12.2014

**1. YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Angela Russell (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Louise Hughes, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Morgan, W Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Mike Stevens, Gruffydd Williams,

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Rheolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Mr Greg Guthrie (Cwmni Royal Haskoning) a Mr Cefin Edwards (Prif Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd)

ii) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen - Y Cynghorydd John Wyn Williams – Aelod Cabinet Cynllunio, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) a Mr Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd)

iii) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Mr Dafydd Wyn Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth)

iv) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd, Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Mr Dafydd Wyn Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth), Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd Cynhadledd y Cambrian), Cynghorydd Eryl Jones Williams (Aelod Lleol), Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Lleol)

v) Mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Thomas – Aelod Cabinet Addysg, Debbie Ann Williams Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd)

**YMDDIHEURIADAU:**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Annwen Hughes, Eric M. Jones, Linda Morgan a Bob Wright

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn eitem 5 ar y rhaglen oherwydd bod ei gwr yn gyfrifol am Gynllunio, Tirwedd, Ynni i Cyfoeth Naturiol Cymru – gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.
- Y Cynghorwyr Caerwyn Roberts a Gruffydd Williams yn eitem 9 ar y rhaglen oherwydd eu bod wedi gorfod tynnu yn ôl o waith yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg ôl-16 oherwydd bod aelodau o’u teulu yn derbyn gwasanaeth. O ganlyniad, ni fu iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**
Dim i’w nodi

**4. COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2014 yn ddarostyngedig i:

(i) Dileu enw'r Cynghorydd Gruffydd Williams o dan 'yn bresennol'' ar dudalen 1
(ii) Ychwanegu at baragraff 5(b) Protocol Aelodau Etholedig

*Mewn ymateb i bryder nad oes cyswllt digonol gydag Aelodau - y drefn fel y mae yn un systematig fel na ellir cael sgwrs / trafodaeth, dilyniant na chasgliadau pendant ynglŷn â'r materion sydd yn cael eu codi,* nodwyd bod y Protocol Aelodau Etholedig yn ceisio sicrhau llif gwybodaeth i un cyfeiriad gyda phob ymholiad ac ymateb yn cael ei gofnodi yn briodol. Dywedwyd bod sefydlu un pwynt cyswllt yn rhoi agwedd broffesiynol i'r drefn ac nad oedd unrhyw fwriad i newid y drefn. Adroddwyd bod dros 300 o gwynion wedi eu derbyn gan Gynghorwyr yn y flwyddyn ddiwethaf ond fel mae'r gwaith gwella yn dirwyn i ben ymddengys bod nifer y cwynion yn lleihau. O ran rhannu gwybodaeth ynglŷn â gwaith wedi ei gwblhau, cytunwyd bod modd gwella a chau'r cylch ymholiad yn llawn.

**5. CYNLLUN GWARCHOD YR ARFORDIR (Gorllewin Cymru)**

a) Cafwyd cyflwyniad byr gan Mr Greg Guthrie (Cwmni Royal Haskoning), awdur Cynllun Traethlin Gorllewin Cymru ar gefndir y cynllun sydd yn asesu effaith petai lefel y môr yn debygol o godi 50 - 150m yn y dyfodol oherwydd newidiadau i'r hinsawdd gydag amrediad o effeithiau a thrawiadau y bydd angen i rai ardaloedd eu mabwysiadu, ac mewn ardaloedd sydd yn debygol o gael eu heffeithio yn y tymor byr, bydd rhaid adnabod y pethau pwysig hynny fydd rhaid eu newid.

b) Nodwyd bod cynllun gweithredu'r Cyngor yn un eithriadol. Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor cyntaf i wynebu'r her a derbyn y materion. Maent wedi ymateb drwy siarad gyda chymunedau, egluro'r deilliant i'r bobl leol, sicrhau bod pentrefi / trefi yn ymwybodol o'r effeithiau a chynnwys cymunedau yn y trafodaethau. Eglurwyd bod taflenni gwybodaeth wedi eu paratoi fesul cymuned a'r goblygiadau wedi eu trafod gyda'r pentrefi. Cwblhawyd rhannu gwybodaeth yn 2013 gydag ail gylch o ymweliadau i'w trefnu ar gyfer 2015.

c) Mynegwyd pryder gan un aelod ynglŷn â sut gall y Cynulliad gyfiawnhau na fyddant yn gwarchod ardaloedd y cynllun ar ôl 15 mlynedd. Gwnaed cais am eglurder a diffiniad clir o'r gair 'amddiffyn'. Ychwanegwyd, fel esiampl bod 400 o anheddau yn Y Friog a sut felly bydd adleoli'r rhain? A yw 'rolling back' yn golygu adeiladu tai o'r newydd? Os bydd tai yn cael eu gadael, pwy fydd yn talu'r gost? Os na fydd arian yn cael ei wario ar amddiffynfeydd, pam na ellir defnyddio'r arian i ail-leoli ac ail ddatblygu pentrefi. Os bydd rhaid adlinio'r arfordir, onid gwell fuasai cynllunio yn hytrach na'i adael. Yng nghyd-destun adlinio wedi ei reoli, a yw'r wybodaeth wedi ei rannu gyda'r cyhoedd? Bydd rhaid sicrhau bod pobl Y Friog yn saff.

ch) Mewn ymateb i'r pryderon, eglurwyd mai dogfen lefel uchel yw'r Cynllun Traethlin sydd yn tynnu sylw at ardaloedd na ellir eu hamddiffyn. Lle nodi'r 'rheoli amddiffynfeydd' rhaid adnabod yr angen i newid. Polisi ydyw ac nid manylion, yn amlygu cyfleoedd ac opsiynau posib gan agor trafodaethau gyda chymunedau i drafod yr angen i newid.

d) Tynnwyd sylw gan Aelod bod ardal y Borth yng Ngheredigion wedi derbyn miliynau i amddiffyn cymunedau ac felly pam na ellir amddiffyn Y Friog. Eglurwyd bod 6 miliwn wedi ei wario ar amddiffynfeydd i gefn y Friog a bod sefyllfa ddaearyddol y Borth yn wahanol hefyd..

dd) Gan herio'r adroddiad, nododd un Aelod mai damcaniaethau yn unig sydd ynddo. Ymddengys bod y dull yn ymarferol, ond ymateb a barn un arbenigwr ydyw. Rhaid cael ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i amddiffyn cymunedau arfordir Cymru a gwneud penderfyniadau cadarnhaol i amddiffyn Y Friog. Penderfyniad yr Awdurdod Lleol fydd amddiffyn neu ddigolledu cymunedau'r arfordir. Mae Y Friog bellach

yn rhan o sgwrs genedlaethol a bydd rhaid sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn rhan o'r trafodaethau hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ond nodir y pwyntiau a ganlyn:**

i. **bod angen cynllun yn ei le a bod ymateb Cyngor Gwynedd i'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus a bod cynnwys y cymunedau mewn unrhyw drafodaethau yn allweddol.**
ii. **Dylid canmol bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal, ond mae angen sicrhau bod hyn yn parhau.**
iii. **Bod y sgwrs genedlaethol yn araf ac yn creu anawsterau i'r gymuned. O ganlyniad, dylid anfon neges at y Gweinidog yn amlygu'r pryderon gan bwyso ymateb ac eglurder buan.**

## 6. MONITRO GORFODAETH MEYSYDD CARAFANAU

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn darparu cyd-destun ar gyfer y gwaith o fonitro a gorfodaeth ar safleoedd carafanau.

b) Amlygodd yr Aelod Cabinet bod monitro gorfodaeth carafanau wedi cael cryn sylw yn ddiweddar o ganlyniad i geisiadau cynllunio yn cael eu caniatáu i feysydd carafanau barhau yn agored o 10 mis a hanner i 12 mis. Mynegwyd bod angen datblygu dull o fonitro safleoedd carafanau'n rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r caniatâd cynllunio a'r amodau perthnasol, ond bod hyn yn ddibynnol ar adnoddau staff ac nad oedd yn ymarferol bosib i fonitro pob un safle. Hefyd, mynegwyd bwriad i gasglu gwybodaeth gyfredol am safleoedd carafanau i sefydlu gwaelodlin fyddai yn y pendraw yn hwyluso trefniadau gwaith o safbwynt gwaith monitro ac ymateb i gwynion ynglŷn â safleoedd carafanau.

c) Ymhelaethwyd bod yr Uned Gorfodaeth Cynllunio wedi gwneud gwaith ymchwil gydag Uned Gwarchod y Cyhoedd a bod trafodaethau wedi bod gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i geisio ymateb i'r dasg enfawr o fonitro pob safle yng Ngwynedd. Ers dechrau'r flwyddyn mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Gorfodaeth sydd yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith rhagweithiol ac adweithiol yr Uned Gorfodaeth am mae'r Strategaeth yn nodi'r bwriad i fonitro 20 safle'r flwyddyn.

ch) Atgoffwyd yr aelodau nad oedd gofyn statudol i wneud y gwaith rhagweithiol, ei fod yn cael ei ystyried fel ymarfer da ar lefel cenedlaethol gan fod y gwaith yn dod a gwerth ychwanegol ac yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Oherwydd y pryder ynglŷn â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer tymor gwyliau 12 mis, eglurwyd fod y gwaith monitro rhagweithiol wedi cynnwys blaenoriaethu'r safleoedd hynny oedd wedi derbyn caniatâd am dymor gwyliau 12 mis.
Adroddwyd mai pedwar safle yn unig allan o 13 sydd gyda chaniatâd sydd wedi gweithredu ar y caniatâd 12 mis a gafwyd er y tybir y bydd hyn yn cynyddu wrth i geisiadau pellach gael eu cyflwyno. Nodwyd, gan mai gwasanaeth dewisol ydyw, mae yn hollol ddibynnol ar adnoddau, y bydd yn rhaid ystyried os yw'r gwasanaeth yn flaenoriaeth o fewn ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi ei glustnodi fel un y gellid ei leihau neu ei ddileu gan nad ydyw yn wasanaeth statudol.

d) Un o bryderon yr Aelodau oedd bod caniatáu'r ceisiadau 12 mis yn mynd i arwain at bobl yn byw yn barhaol mewn carafanau a fydd o ganlyniad yn creu cymunedau newydd / chwalu cymunedau Cymraeg. Eisoes ceir enghreifftiau, fel ym Morfa Bychan, lle mae'r nifer o garafanau sydd ar y safle yn uwch na'r nifer o dai yn y pentref. Atgoffwyd yr aelodau mai gwrthod y cais cynllunio cyntaf a wnaeth y Pwyllgor Cynllunio, yn groes i'r argymhelliad, ac o ganlyniad aeth yr ymgeisydd a'r cais i apêl a llwyddo gyda chostau o

£15,000 yn erbyn y Cyngor. Gwnaed cais hefyd i gynghorwyr ddarparu gwybodaeth i'r Gwasanaeth Cynllunio os oedd ganddynt dystiolaeth / bryderon fod rheolau cynllunio'n cael eu torri er mwyn cynorthwyo gan sicrhau cydymffurfiaeth.

dd) Mewn ymateb i gwestiwn o godi treth ar garafanau 12 mis er mwyn ariannu a chreu incwm i dalu am adnoddau gorfodaeth, nodwyd bod cyfle o godi ffi drwy'r uned drwyddedu ond bod angen i ddeddfwriaeth newydd i ganiatáu hynny. Mynegodd y Pennaeth Rheoleiddio bod hyn yn annhebygol yn enwedig yn y tymor byr. O ran trafodaethau traws adrannol a chynnal sgwrs ehangach ynglŷn â phreswylwyr y carafanau, nodwyd nad oedd mecanwaith ffurfiol yn ei le i gasglu gwybodaeth. Eglurwyd bod y wybodaeth orau fel arfer yn dod gan y cymunedau neu'r aelodau etholedig lleol. Er nad oes trefn ffurfiol yn ei le i geisio sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gasglu ar draws adrannau, cytunwyd y byddai modd edrych ymhellach i hyn. Mynegodd yr aelodau eu hawydd i weld hynny yn digwydd.

e) Gwnaed cais pellach am wybodaeth am niferoedd a lleoliad meysydd carafanau fesul ward ynghyd a natur y caniatâd, hynny wy, sefydlog /teithiol ac yn y blaen er mwyn caniatáu i'r aelod lleol i fonitro'r sefyllfa. Cytunwyd y byddai modd ystyried hyn a rhannu gwybodaeth berthnasol o ran hanes cynllunio gyda'r aelodau mewn achosion perthnasol. Amlinellwyd, unwaith bydd y gwaelodlin yn ei le bydd y gwaith yn dod yn haws (nodwyd hefyd bod y Parc Cenedlaethol yn cynnal gwaith tebyg o sefydlu gwaelodlin).

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad sydd yn rhoi darlun gonest o'r sefyllfa a derbyn y gwaith ar y gwaelodlin gan bwysleisio'r materion a ganlyn;**

i) **Dylid annog aelodau i ddod a gwybodaeth allweddol i sylw'r adran**
ii) **Cydweithio gydag adrannau eraill i wella lefel gwybodaeth**
iii) **Cadw llygad ar y posibilrwydd o godi incwm i ariannu'r gwasanaeth i'r dyfodol ow yw deddfwriaeth yn caniatáu**
iv) **Er pwysigrwydd y gwaith, derbyn bod elfennau rhagweithiol yn ddewisol ac felly yn opsiwn fydd yn gorfod cael ei ystyried ar gyfer cyflawni arbedion**

## 7. BLAENORIAETHU DARPARIAETH CLUDIANT CYHOEDDUS

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Rheoleiddio yn cyflwyno'r effaith posib ar drigolion Gwynedd o weithredu newidiadau i'r drefn cludiant cyhoeddus ar sail canlyniadau'r matrics. Ategodd yr Aelod Cabinet bod cyllid ar gyfer cludiant yn lleihau, ond y galw a'r gost yn cynyddu ac felly amhosib fuasai parhau gyda'r sefyllfa bresennol. Cyflwynwyd y matrics i geisio sicrhau tegwch. Pwysleisiwyd fod y matrics wedi ei ddatblygu gyda phwyslais ar y ffactorau pwysicaf ac fod y pwyllgor wedi bod yn rhan greiddiol o'i ddatblygu.

b) Eglurwyd bod pum pennawd wedi cael ei fesur; ardal, cyfaint, dewis arall, math o wasanaeth a chyfleusterau gyda phwyslais bod angen gwaith pellach i ddadansoddi 'dewis arall'. Cynigwyd hefyd yr angen am ddiffiniad gwell i'r 'ardal'.

c) Amlygwyd mai gwasanaethau dewisol yw rhai o'r teithiau a bod dewisiadau anodd ei gwneud i gyfarch yr arbedion. Pwysleisiwyd mai Cludiant cyhoeddus yw'r gwasanaeth a bod rhai yn ei ystyried fel cludiant personol. Cydnabuwyd na ellir cyfarch anghenion pawb. Y bwriad o gyflwyno'r adroddiad hwn yw rhannu'r wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn cefnogi a chynorthwyo aelodau gyda phenderfyniadau anodd. Atgoffwyd yr aelodau nad ymateb i doriadau oedd y newidiadau, ond ymateb i golled mewn grant a bwlch yn y gyllideb bresennol.

ch) Byddai rhaid i rai teithwyr addasu patrwm eu bywydau i gyd fynd ac amserlenni cludiant yn y dyfodol ac na ddylen ddisgwyl i gludiant gael ei siapio ar sail eu gofynion personol.

d) Awgrymwyd gan aelod bod angen ail adolygu'r matrics er mwyn gwella'r deilliant ac ail ymweld ar tabl pwysau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir. Annheg fuasai torri gwasanaethau hwyrnos gan fod y rhain yn cludo pobl i'w gwaith (ac nid ar gyfer hamdden a phleser yn unig). Cynigiwyd, yn hytrach na gostwng gwasanaeth nos y dylid ei wneud ac ymestyn gwasanaethau aml yn ystod y dydd. Y cais yw adolygu'r matrics a phenderfynu os oes opsiynau gwell neu ddewis arall. Derbyniwyd bod rhaid gweithredu newidiadau, ond hefyd rhaid deall beth sydd yn dderbyniol.

e) Eglurwyd bod gwaith pellach i'w gwblhau a fydd yn cynnwys mapio fesul cymuned ac adeiladu ar y wybodaeth bresennol mewn manylder. Bydd y wybodaeth ychwanegol yn cael ei ystyried gan yr Aelod Cabinet cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Cabinet am benderfyniad. Rhagwelir y bydd asesiad effaith cydraddoldeb ar y teithiau dan sylw yn rhan o'r broses cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan bwysleisio'r materion a ganlyn;**

i. **Derbyn y broses gan ystyried y darlun, y pwrpas a'r rhesymeg wrth ddatblygu a gweithredu'r matrics**
ii. **Y dylai Cynghorwyr lleol gynnal grwpiau trafod lleol gyda chymunedau i'w hysbysebu o'r newidiadau ac i flaenoriaethu anghenion cludiant y gymuned honno.**

## 8. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN PONT BRIWET

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn darparu gwybodaeth a chyd-destun ar gynnydd prosiect Pont Briwet. Roedd yr adroddiad yn ymateb i bryder aelodau'r Pwyllgor o amserlen y gwaith a phwy fydd yn gyfrifol am unrhyw golledion ariannol neu ychwanegol fydd angen eu cyfarch os bydd y gwaith yn llithro ymhellach na'r dyddiad cwblhau.

b) Adroddwyd bod bar gyfreithiwr wedi rhoi barn annibynnol am yr hawliau am daliadau ychwanegol. Mynegwyd bod y bar gyfreithiwr o'r farn nad oedd sail i'r honiadau hyn.

c) Adroddwyd bod cyfathrebu da yn parhau gyda chwmni Hochtief, contractwyr adeiladu'r bont, y disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn Mehefin 2015. Amlinellwyd bod y llithriad yn sgil problemau gyda Dwr Cymru, Cwmni BT, National Grid a Llanw Uchel. Nodwyd bod pryder ynglŷn â risg i arian Ewropeaidd gael ei dynnu yn ôl os na fyddai'r bont wedi ei chwblhau ar amser. Mewn ymateb i'r pryder, nodwyd bod 23 diwrnod o risg ychwanegol wedi ei gytuno ac mai'r setliad y cyfrifiad terfynol fydd y risg fwyaf o ran trefniadaeth ariannol.

ch) Cydnabuwyd y byddai'r bont o fudd sylweddol i'r gymuned wedi ei chwblhau, ond 'heddiw' mae'r problemau i'w gweld ac yn brathu. Y teimlad cyffredinol yw bod pobl yn teimlo eu bod wedi eu gadael i lawr gyda negeseuon cymysg ac anghyson yn cael eu rhannu. Nodwyd bod Cwmni Hochtief wedi penodi Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus ond bod y swyddog hwnnw wedi gadael. Hysbysebwyd yn lleol am swyddog wedi hynny ond heb lwyddiant. O ganlyniad, penodwyd dwy swyddog o'r Cyngor i ymgymryd â'r gwaith, a oedd yn ychwanegol i'w cyfrifoldebau ac o dan amgylchiadau anodd iawn. Diolchodd yr aelodau i Patricia Jones (Cydlynydd Prosiect Pont Briwet) a Cheryl Ann Morgan (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd – Pont Briwet) am eu gwaith da. Credir mai un o'r gwersi i'w dysgu buasai sicrhau swyddog perthnasol ar ddechrau'r prosiect i feithrin perthynas gyda'r gymuned leol.

d) Derbyniwyd bod nifer o ffactorau wedi cynddeiriogi pobl leol ac yn amlwg mai diffyg cyfathrebu clir a chyson yw'r prif ffactor. Rhaid sicrhau bod neges onest a thryloyw yn cael

ei rhannu i'r gymuned leol yn datgan y sefyllfa bresennol. Yn sicr, mae busnesau cylch Harlech, Talysarn, Penrhyndeudraeth a Phorthmadog wedi eu heffeithio yn sgil yr oediad ac felly rhaid sicrhau nad oes oediad pellach.

dd) Rhaid sicrhau bod Cwmni Hochtief yn cwrdd â'r dyddiad cwblhau arfaethedig. Addewid wedi ei wneud ac felly pwysig peidio colli ymddiriedaeth. Amlygwyd bod Rheolwr Prosiect newydd wedi ei benodi a bod y rhaglen bellach yn dderbyniol a chyraeddadwy
.

e) Ynglŷn â difrod diweddar i'r system confoi, nodwyd bod hyn yn hollol annerbyniol a bod hyn yn codi risgiau iechyd a diogelwch.

f) O ran llwyddiannau o fewn y cynllun, nodwyd bod gwaith da wedi ei wneud i sicrhau pecyn ariannol ar gyfer y cynllun, bod cydweithio da rhwng y cyrff allweddol, bod y cynllun wedi dod a gwaith i bobl leol a hyd yma nad oes cofnod o unrhyw ddamwain. O ran pwyslais ar y rhaniad ansawdd (40%) v masnachol (60%), derbyniwyd bod haid rhoi ystyriaeth i'r balans yma wrth dendro prosiectau isadeiledd mawr yn y dyfodol a mesur pob sefyllfa yn unigol.

Diolchwyd i'r swyddogion am y diweddariad a'r wybodaeth agored.

**PENDERFYNWYD rhannu pryderon y pwyllgor gyda'r Pwyllgor Archwilio gan dynnu sylw penodol at y gwaith i reoli risigiau o fewn y cynllun ac amserlen y cynllun**

Gwnaed sylw ychwanegol gan Aelod Lleol yn mynegi pryder bod nifer o bobl yn cerdded ar draws y bont. Mynegwyd petai damwain yn digwydd, buasai hyn yn creu oediad pellach.

## 9. CYFLWYNO ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU CLUDIANT ADDYSG ÔL-16

a) Rhoddwyd crynodeb o gefndir yr ymchwiliad gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Stephen Churchman. Amlinellwyd mai briff yr ymchwiliad oedd ystyried sut roedd polisi'r Cyngor yn cael ei weithredu ar lawr gwlad a beth oedd effaith gweithredu'r polisi hwnnw ar ddarparwyr addysg ôl-16, y dysgwyr a'u teuluoedd.

Ym mis Medi 2014, gwnaed cais gan yr Aelod Cabinet dros Addysg i ymestyn briff yr ymchwiliad i ystyried opsiynau pellach i ddarganfod arbedion posib o fewn y gwasanaeth cludiant addysg ôl-16. Golyga hyn yr angen i ystyried opsiynau ac argymhellion mwy creadigol er darparu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Croesawyd y cais fel cyfle i ychwanegu gwerth i'r ymchwiliad gyda phwyslais ar roi'r cwsmer yn ganolog i'r gwasanaeth.

Wrth ystyried yr opsiynau creadigol cytunodd aelodau'r ymchwiliad ar yr egwyddorion canlynol;

- Tegwch i bawb
- Agored i bawb
- Hyblygrwydd
- Cost resymol
- Amser teithio hyblyg.

Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi bod yn un manwl a bod amryw o unigolion a sefydliadau wedi cael eu holi ac wedi rhoi mewnbwn i'r ymchwiliad. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

b) Cyflwynwyd yr argymhellion i'r Aelod Cabinet. Cydnabuwyd mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu arnynt, ond gwnaed cais am adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn y cyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen chwe mis.

c) Mewn ymateb i'r ymchwiliad, nodwyd bod yr ymchwiliad yn fanwl a hawdd ei ddarllen.

ch) O ran pwynt gweithredu, nodwyd mai pwynt gwleidyddol oedd *13. Materion Eraill er Ystyriaeth yr Aelod Cabinet (tudalen 8)* a derbyniwyd y sylw bod angen ei addasu.

d) Gwnaed cynnig ychwanegol i'r Aelod Cabinet drafod gydag Edwina Hart y gwahaniaethau amlwg sydd yn bodoli rhwng trefniadau Lloegr a Chymru. Rhaid ceisio sicrhau tegwch i bawb

**PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad yr Ymchwiliad a chroesawyr ffaith bod yr Aelod Cabinet yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, a disgwyl am adroddiad yn ôl ymhen 6 mis.**

**10. BLAEN RAGLEN WAITH DRAFFT CRAFFU 2014 - 2015**

a) Cyflwynwyd blaen raglen waith diwygiedig er gwybodaeth i'r aelodau.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad. Diolchwyd i Mandy Williams Davies am ei chyfraniad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau dros y blynyddoedd a dymunwyd pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd fel Aelod Cabinet. Diolchwyd hefyd i Debbie Anne Williams Jones am ei chyfraniad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau - bydd Debbie yn cefnogi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol o hyn ymlaen.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 1:40pm

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSEDD AC ANHREFN AWDURDOD LLEOL GWYNEDD/AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **GWYNEDD 24/02/15. YNYS MÔN 12/03/15** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CATHERINE E ROBERTS** |
| **PWNC:** | **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** |

## 1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Darparu trosolwg i'r Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd (PDC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 2.00 CEFNDIR

2.01 Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn pob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'r gweithgareddau yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yng Nghymru ar 1 Hydref 2009 drwy Reoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009. **Dyletswydd y pwyllgor yw craffu ar waith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau unigol.**

2.02 Mae'n ddyletswydd statudol ar **Awdurdodau Lleol** yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r **Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub** i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â –

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith a gynhelir ar sail ranbarthol bellach)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

2.03 Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 1998.

Mae'r ddau awdurdod lleol ar y cyd yn darparu rheolwr a swyddog monitro er mwyn cefnogi a gweinyddu'r Bartneriaeth, ac i dderbyn, gweinyddu a monitro'r grantiau a dderbynnir. Mae'n bosib y gallai'r adnodd yma leihau yn y dyfodol o ganlyniad i'r toriadau ariannol presennol. Mae swyddogion eraill sy'n cael eu hariannu drwy grantiau i weithio ar ffrydiau gwaith penodol.

3.00 **AILSTRWYTHURO'R BARTNERIAETH**

3.01 Mae strwythur partneriaeth y ddwy Sir wedi'i sefydlu ers dwy flynedd, ac yn eistedd o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sirol (BGLl) ar gyfer y ddwy sir. Penderfynodd y BGLl ar ei flaenoriaethau ym mis Rhagfyr 2014, ac nid yw'r rhain yn cynnwys meysydd gwaith penodol ar gyfer y PDC. Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Bwrdd Cymunedau Diogel rhanbarthol (Gogledd Cymru) (BCD) hefyd wedi pennu cylch gorchwyl a strwythur llywodraethu newydd. Mae'r Bwrdd bellach yn bwyllgor ymgynghorol, ac wedi cytuno ar ei brif dasgau, sydd wedi'u rhestru isod –

| | |
|---|---|
| a. | Comisiynu gwasanaethau a ariennir drwy gyfrwng grantiau rhanbarthol penodol |
| b. | Atebolrwydd strategol ar gyfer Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru |
| c. | Sefydlu fframwaith cyffredin a chyson ar gyfer cyflawni gwaith strategol, tactegol a gweithredol ar lefelau rhanbarthol, isranbarthol a lleol, a hynny drwy gynhyrchu asesiad strategol a chynllun diogelwch cymunedol blynyddol (bydd strwythur cyfatebol tebyg hefyd yn cael ei dilyn ym maes cyfiawnder ieuenctid). |
| d. | Nodi blaenoriaethau a rennir a/neu sy'n gyffredin ym meysydd diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuenctid. |
| e. | Gweithredu fel llais cynrychioliadol ffurfiol i ddylanwadau ar Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a'r Corff Heddlu lleol. |

3.02 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd da yn y modd y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd. Sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2012 oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn rhanbarthol. Mae'r Bwrdd hwn yn cynrychioli partneriaeth rhwng yr holl awdurdodau statudol yn y rhanbarth (yn unol â diffiniad Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998), ynghyd â'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu.

3.03 Ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, bu nifer o ddatblygiadau'n ymwneud â'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA), sef y Bwrdd newydd rhanbarthol sy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngogledd Cymru. Dyma'r prif newidiadau –

- Datblygu Bwrdd rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaeth statudol y PDC ar lefel ranbarthol. Mae'r BCA bellach wedi'i sefydlu, ac nid oes Tîm Gweithredol Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) yng Ngwynedd nac yn Ynys Môn.
- Datblygu strategaeth comisiynu camddefnyddio sylweddau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, sydd bellach wedi'i chwblhau.
- Mae'r gronfa camddefnyddio sylweddau bellach wedi'i throsglwyddo yn grant rhanbarthol, gyda Wrecsam yn gweithredu fel y Bancer rhanbarthol. Bellach, nid oes Cydlynydd Camddefnyddio Sylweddau ym mhob Sir, ond yn hytrach ceir tîm sy'n cynnwys – Rheolwr rhanbarthol a thri cydlynydd rhanbarthol (dau wedi'u lleoli yn y Siroedd), ynghyd â swyddog cyllid.

**4.00 <u>YSTYRIAETHAU</u>**

4.01 Mae'n amlwg fod gweithio mewn partneriaeth yn gwella sut mae asiantaethau yn ymdrin â throsedd ac anhrefn. Mae cyfraddau'r troseddau a gofnodir yn parhau i ostwng. Ceir isod grynodeb o rai o'r prif ddarganfyddiadau:

**Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag oedd 4 bedair blynedd yn ôl**

Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag yn 2011. Wrth gymharu'r ffigurau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011 gyda'r un cyfnod yn 2014;

yn Ynys Môn cafwyd gostyngiad o 628 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-19%), ac yng Ngwynedd cafwyd gostyngiad o 1493 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-20%).

Yn ogystal, bu nifer o ostyngiadau eraill penodol;

- 97 yn llai o droseddau treisgar yn erbyn y person, gostyngiad o 11%
- 55 yn llai o achosion o fyrgleriaeth nad oeddynt yn ddomestig, gostyngiad o 25%.
- 118 yn llai o ddigwyddiadau o ddwyn a thrin, gostyngiad o 15%
- 66 yn llai o droseddau'n ymwneud â chyffuriau, gostyngiad o 32%

4.02 Bellach mae Cynllun Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gynllun rhanbarthol. Mae'r cynllun ar gyfer Gogledd Cymru ar ffurf drafft ar hyn o bryd – nodir yr ardaloedd blaenoriaeth yn y tabl isod, **ond maent yn cael eu hadolygu gan weithgor rhanbarthol er mwyn adlewyrchu canfyddiadau dogfen asesu strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.**

4.03 Blaenoriaethau asesiad strategol Gogledd Cymru am y 12 mis nesaf

- Treisio (rhagwelir cynnydd)
- Troseddau Rhywiol Difrifol (rhagwelir y bydd yn aros yn debyg neu'n codi)
- Ecsbloetio plant yn rhywiol (rhagwelir cynnydd)
- Byrgleriaeth o Dai (Parhau i ostwng)
- Seiberdroseddu (rhagwelir cynnydd)
- Cam-drin domestig (parhau ar gynnydd)
- Caethwasiaeth fodern (bygythiad sy'n dod i'r amlwg)
- Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol, cyffuriau (dim newid)
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol (parhau i ostwng)
- Troseddau'n ymwneud â cherbydau (parhau i ostwng)
- Dwyn o siopau (Cyson)
- Mathau eraill o ddwyn (Cyson)
- Difrod troseddol (gostyngiad bach)
- Cynnau tân yn fwriadol (parhau i ostwng)

Yn y ddogfen, nodwyd y casgliadau strategol a ganlyn mewn perthynas â'r achosion/ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu

- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- ***Dioddefwyr a throseddwyr yn agored i broblemau iechyd meddwl***
- Dioddefwyr yn wynebu bygythiadau, a mwy o gyfleoedd i droseddwyr o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol (o dwyll lefel isel i egsbloetio plant yn rhywiol - CSE)
- ***Troseddau cudd (troseddau nad ydynt yn cael eu hadrodd, megis CSE, caethwasiaeth, treisio a cham-drin domestig)***

4.05 Meysydd blaenoriaeth Gogledd Cymru - (**yn cael eu hadolygu ac i'w diweddaru)**

| Blaenoriaeth | Deilliannau | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|
| Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Bydd pobl yn fwy ymwybodol o droseddau cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn fwy hyderus i adrodd amdanynt<br><br>Bydd pobl ifanc yn ymwybodol o natur ac oblygiadau trais rhywiol, ac yn gwybod ble i ganfod cefnogaeth<br><br>Ymdrin yn effeithiol y tro cyntaf ag achosion risg uchel o gam-drin | Nifer y digwyddiadau trais domestig yr adroddir amdanynt i Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Nifer y troseddau rhywiol yr adroddir amdanynt i Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Pobl ifanc yn meddu ar wybodaeth dda am drais rhywiol (monitro drwy arolygon ymyraethau post)<br><br>Nifer yr achosion a |

| | | |
|---|---|---|
| | domestig drwy ymyrraeth MARAC llwyddiannus | gyfeiriwyd at MARAC fwy nag unwaith |
| Trosedd Gaffaelgar | Nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn lleol mewn perthynas â throsedd gaffaelgar a datblygu ymatebion addas ac wedi'u targedu i'r tueddiadau hynny.<br><br>Rhoi sylw ar y cyd i'r rhai hynny sy'n peri'r niwed mwyaf yn ein cymunedau | Nifer y troseddau caffaelgar yr adroddir amdanynt<br><br>Nifer y troseddau caffaelgar a wneir gan aildroseddwyr |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Cefnogi dioddefwyr risg uchel a phobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro<br><br>Darparu ymyraethau addas i broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a nodir yn lleol yn ein cymunedau | Nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br><br>Nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddir amdanynt |
| Camddefnyddio Sylweddau | Gwella argaeledd ac ansawdd addysg, gwasanaethau atal a thriniaeth a chymorth perthnasol, gan roi mwy o bwyslais ar y berthynas rhwng alcohol, cyffuriau a throsedd | Cyflawni Dangosyddion Allweddol Llywodraeth Cymru ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau |

5.00 **<u>GWEITHGAREDDAU 2014/15</u>**

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn destun ailstrwythuro sylweddol iawn, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r holl arian grant a dderbynnir gan y PDC wedi newid. Mae'r adnoddau cefnogol wedi'u cwtogi ac mae rhai prosesau ailstrwythuro rhanbarthol yn parhau heb eu gorffen. Fodd bynnag, mae'r PDC wedi ymrwymo i ymgymryd â'r gweithgarwch mwyaf effeithiol a hawdd ei reoli er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau statudol. Isod ceir rhestr o'r prif weithgareddau a gynhaliwyd dros y 12 mis diwethaf.

5.01 Gweithgareddau a Chynnydd Rhanbarthol

Mae Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru wedi'i sefydlu'n llawn. Mae aelodau lleol a Chyfarwyddwyr Awdurdodau lleol yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol ar y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar y prif swyddogaethau a ganlyn -

i. Cymeradwyo Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16
ii. Cytuno a chymeradwyo i gynhyrchu Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol rhanbarthol, fydd yn ymateb i ganfyddiadau'r asesiad strategol newydd
iii. Cadw trosolwg strategol ar Fwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau sydd ar hyn o bryd yn gorwedd gyda BCD, ond sydd hefyd yn cael sylw lleol yn y PDC.
iv. Ymateb cydlynol i Gynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
v. Cysondeb yr agwedd tuag at grantiau a gaiff eu comisiynu'n rhanbarthol, sef y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid a Chronfa'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau – mae'r ddau ohonynt bellach yn grantiau rhanbarthol.
vi. Aelodaeth a chyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) sy'n galluogi'r berthynas ofynnol rhwng PDC a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
vii. Argymell Fframwaith Comisiynu ar gyfer y PCC, sydd hefyd yn eistedd gyda'r BCD ar sail ranbarthol

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.02 Gweithgareddau a Chynnydd Lleol

Ar lefel leol, dyma rai o'r prif gerrig milltir:

i. Wedi ailstrwythuro strwythurau cefnogol y PDC, gan newid i strwythur dwy Sir. Efallai y bydd rhagor o newidiadau o ganlyniad i doriadau ariannol yr Awdurdodau Lleol.
ii. Arwain ar ddatblygu Cynllun Diogelwch Cymunedol rhanbarthol a chynllun gweithredu lleol, sy'n flynyddol ac yn barhaus.
iii. Adolygu holl is-grwpiau blaenorol y PDC er mwyn asesu a yw ein hadnoddau gostyngol yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, mae hyn bellach wedi'i gwblhau.
iv. Cydlynu'r ymateb rhanbarthol i'r Cynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel – sy'n ymwneud â datblygiadau cam-drin domestig, sy'n parhau ar lefel leol
v. Ennill cymeradwyaeth ffurfiol i ariannu'r grantiau a ganlyn: Y Gronfa

Diogelwch Cymunedol, Cronfa'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig a'r Gronfa Atal Troseddu Ieuenctid. Hyd yma y brif her fu colli rhai o'r cyfraniadau ariannol tuag at yr agenda Trais Domestig, sydd wedi arwain at orfod cwtogi rhai o'r gwasanaethau a gomisiynir gennym.

vi. Cynhaliwyd adolygiad Lladdiad Domestig yn Ngwynedd o fis Mawrth 2012 ymlaen, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Ym mis Hydref 2014 cynhaliwyd gweithdy ar gyfer cydweithwyr ar draws y rhanbarth, i rannu profiadau ac arfer da yn seiliedig ar ein profiad.

vii. Sefydlu grŵp dwy Sir i sicrhau cynnydd yn swyddogaeth y Cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM), sydd bellach wedi'i gwblhau. IOAM yw un o'r prif brosiectau i fynd i'r afael â'r agenda i leihau aildroseddu.

viii. Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o'r Gynhadledd asesu risg amlasiantaethol (MARAC) yn y ddwy Sir gan CAADA (Achredwyr Cenedlaethol - Gweithredu ar y cyd yn erbyn Cam-drin Domestig). Rydym yn disgwyl am yr ymateb, a byddwn yn llunio cynllun i ymateb i'r argymhellion.

ix. Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio camerâu symudol, o ganlyniad i ddiffyg arian a dibynadwyedd y camerâu. Mae'r Heddlu yn ystyried ceisio am ymyrraeth wahanol i ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

x. Darparu cefnogaeth grŵp cynnal defnyddwyr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau lleol yn Ynys Môn a Gwynedd (AGRO): rydym wedi llwyddo i gynnal yr ariannu ar gyfer y grŵp drwy gyfrwng y strwythur rhanbarthol am flwyddyn arall.

xi. Symud i ddull gweithio 'rheoli systemau proses' wrth fonitro meysydd blaenoriaeth i Bartneriaethau weithredu mewn modd strategol

xii. Wedi rhoi polisi cam-drin domestig ar waith yn y gweithle yn Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

xiii. Addasu'r strwythurau cefnogaeth Camddefnyddio Sylweddau cyfredol i weddu i'r gofynion rhanbarthol newydd, fydd yn arwain at un cydlynydd i'r ddwy sir yn y dyfodol, yn gweithio'n bennaf fel adnodd rhanbarthol.

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.03 Prif Gerrig Milltir yn y Flwyddyn i Ddod

i. Mae'r Prif Gwnstabl wedi cychwyn 'cyfrif-stoc' o'r PDC, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae angen i ni gymryd rhan yn yr adolygiad hwnnw ac ymateb i'w ganfyddiadau.

ii. Bydd angen i ni ymateb i'r posibilrwydd o doriadau pellach i'r adnoddau o fewn y tîm cefnogol Diogelwch Cymunedol yr

Awdurdodau Lleol, a dod i benderfyniad ar ba weithgarwch fydd yn bosib' o fewn y capasiti llai os bydd toriadau.

iii. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu y bydd y gronfa Cam-drin Domestig yn parhau am 12 mis arall, ond yn symud i fod yn gronfa ranbarthol ar ôl hynny. Ar hyn o bryd mae'n ariannu Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) drwy gyfrwng sefydliadau'r trydydd sector, ynghyd â chydlynydd strategol yr Awdurdod Lleol. Bydd yn rhaid i ni ymateb i'r newidiadau hyn wrth iddynt ddatblygu.

iv. Parhau i gefnogi a chyfrannu at waith Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru, ac ymateb yn effeithiol i'r newidiadau posib mewn perthynas â strwythurau'r Bartneriaeth.

v. Parhau â'r gefnogaeth a'r mewnbwn i Gynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru

vi. Gweithio'n effeithiol o fewn y strwythurau rhanbarthol newydd, i ddiogelu angen lleol ac i adnabod cyfleoedd ar sail ranbarthol pan fo hynny'n briodol

vii. Hwyluso'r adolygiad tair blynedd nesaf o strwythurau'r MARAC (Cynhadledd asesu risg amlasiantaethol i ddioddefwyr) cam-drin domestig lleol yn y ddwy Sir ac ymateb iddo. Mae'r adolygiad wedi cychwyn ers mis Rhagfyr 2014

viii. Gweithredu'r rhaglen waith ranbarthol i gynlluniau 10,000 o Fywydau Mwy Diogel

ix. Gweithio gyda'r broses o ailstrwythuro'r Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau ein bod yn medru diwallu anghenion yn rhanbarthol ac yn lleol o fewn y strwythur cefnogi newydd, gan reoli'r newidiadau i swyddi presennol yn effeithiol

x. Adolygu'r cysylltiadau gyda'r gwasanaethau Trwyddedu a Safonau Masnach i sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle ar gyfer prawf prynu ac ati

xi. Ymateb i ddeilliant adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at Fesur newydd, nad yw wedi'i roi ar waith eto

xii. Gweithio gyda swyddfa Comisiynydd yr Heddlu i adolygu a hyrwyddo gwaith y Cydlynydd/wyr Gwrthgymdeithasol, sy'n cael ei ariannu drwy gronfa'r Comisiynwyr

xiii. Cyfrannu i gynllun Integredig y BGLl, a chyflwyno adroddiadau diweddaru yn ôl y gofyn

xiv. Datblygu cynlluniau gwariant rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid, sydd hefyd wedi dod yn gronfa ranbarthol, i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau yn lleol

xv. Cyfrannu at Grŵp Rheoli Troseddwyr yn Integredig Gogledd Cymru

## 6.00 PRIF BENAWDAU

Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag yn 2011. Wrth gymharu'r ffigurau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011 gyda'r un cyfnod yn 2014;

Yn Ynys Môn cafwyd gostyngiad o 628 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-19%), ac yng Ngwynedd cafwyd gostyngiad o 1493 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-20%).

Am y tro cyntaf, mae'r asesiad strategol wedi amlygu'r achosion a'r ffactorau sy'n gyfrifol am droseddu, ynghyd â'r sefyllfaoedd bregus sy'n arwain at bobl yn dioddef troseddu. Mae hyn felly'n arwain at broses gynllunio sy'n ataliol yn hytrach nag yn adweithiol.

Mae'n bosibl y bydd rhagor o gwtogi ar dîm cefnogol yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i'r toriadau ariannol presennol. Petai hyn yn digwydd mae'n rhaid inni sicrhau bod y gweithgaredd sy'n parhau wedi'i ganolbwyntio ar y tasgau mwyaf addas.

Ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, bu nifer o ddatblygiadau'n ymwneud â'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA), sef y Bwrdd newydd rhanbarthol sy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngogledd Cymru. Mae'n rhaid i'r PDC lleol chwarae ei ran yn y dyfodol drwy ddylanwadu ar gomisiynu ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru bellach wedi'i sefydlu'n llawn. Mae aelodau lleol a Chyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol ar y Bwrdd. Eto, mae angen i Wynedd ac Ynys Môn gyfrannu'n llawn at y fforymau rhanbarthol.

Erbyn hyn cafwyd cytundeb i lunio Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol rhanbarthol. Mae'r cynllun hwn wedi'i adnewyddu'n unol â'r asesiad strategol newydd. Fodd bynnag, cytunwyd hefyd y byddai modd cynnwys amrywiadau lleol mewn unrhyw gynllun rhanbarthol yn y dyfodol.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o'r Gynhadledd asesu risg aml-asiantaethol (MARAC) yn y ddwy Sir gan CAADA (Achredwyr Cenedlaethol). Rydym yn disgwyl am yr ymateb, sy'n debygol o fod yn gadarnhaol, a byddwn yn llunio cynllun i ymateb i'r argymhellion.

**7.00**

**<u>ARGYMHELLION</u>**

7.01 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

Atodiad 1

Sylwadau o’r cyfarfod paratoi (29.1.15) o adroddiad ar ddiweddariad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

- Angen mwy o wybodaeth ynglŷn â *hotspots* o ran lleoliadau o fewn y Sir ac o ran y mathau gwahanol o droseddau
- A oes patrwm i ba amser o’r flwyddyn ceir troseddu penodol?
- Angen rhoi mwy o sylw i droseddau gwledig (dwyn olew, offer fferm ac anifeiliaid)
- A yw’r heddlu yn cofnodi pob trosedd?
- A oes cofnod o ‘Cyber Crime’?
- A yw’r ystadegau yn lleihau oherwydd bod llai o bobl yn adrodd / cwyno?
- A yw’r heddlu yn hyderus gyda’r ystadegau y maent yn eu cyhoeddi?
- Angen annog trigolion i wneud defnydd o’r rhif 101.
- *Owl Messaging* yn ymarfer da – angen codi ymwybyddiaeth.
- Pam nad yw ‘Neighbourhood Watch’ yn cael ei annog bellach?
- Yr adroddiad yn cyfleu gwybodaeth am doriadau i’r gwasanaeth - sut gall Cymunedau gydweithio gyda’r Bartneriaeth? Angen hybu hyn - cymunedau yn allweddol i gydweithio a chefnogi gwaith y Bartneriaeth

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **24 Chwefror 2015** |
| **TEITL** | **Maes Parcio Llyn Bach, Porthmadog** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| | |
| **PWRPAS** | **Ymateb i gais i alw penderfyniad yr Aelod Cabinet Rheoleiddio i'r Pwyllgor Craffu** |

1. Ar 17 Ionawr, 2015 arwyddwyd Taflen Benderfyniad gan yr Aelod Cabinet Rheoleiddio mewn perthynas â Maes Parcio Llyn Bach, Porthmadog [Atodiad 1]. Yn syml, penderfyniad i awdurdodi cyfnewid tir trwy gytundeb gyda'r Cwmni Rheilffordd Ffestiniog yw'r penderfyniad hwn a hefyd i roi sail ar gyfer cytuno rhaglen waith ymarferol i hwyluso rheolaeth effeithiol o'r safle. Rhyddhawyd y penderfyniad ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.

2. Ar y 29 Ionawr, 2015 arwyddwyd cais ffurfiol gan Gadeirydd a dau o aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i alw'r penderfyniad i'r Pwyllgor Craffu ar y sail:

    - Nad oes ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i'r ffaith y gallai'r Cwmni Rheilffordd ddefnyddio statudau Sant Steffan i ddefnyddio'r tir ar gyfer dibenion sydd yn groes i bolisïau amgylcheddol ac adfywio'r Cyngor.

    - Nad oes ymgynghori digonol wedi ei wneud yn lleol.

3. Mae materion yn ymwneud a pherchnogaeth, rheolaeth a defnydd o diroedd yn yr ardal yma wedi bod yn destun trafodaeth rhwng y Cyngor ar Cwmni Rheilffordd ers blynyddoedd. Tua deunaw mis yn ôl gwnaeth Pennaeth Adran Rheoleiddio benderfyniad bod y mater wedi llusgo yn rhy hir ac yn cael ei gymhlethu gan nifer o ystyriaethau ymylol ac felly, ymgymerodd â gwaith i adolygu'r ffeil yn ei chyfanrwydd. Gwnaed hyn ar y cyd gyda swyddogion Cyfreithiol ac Eiddo'r Cyngor.

4. Canfyddiad y Pennaeth oedd bod angen rhoi ffocws ar y materion perthnasol a chanfod datrysiad cyn i'r mater gyrraedd pwynt lle byddai angen ei gyfeirio i dribiwnlys tir gan y byddai hynny yn debygol o arwain at ganlyniad anfoddhaol a chostau sylweddol i'r Cyngor.

5. Fel rhan o’r drafodaeth yma, cynhaliwyd trafodaethau uniongyrchol gyda’r Cwmni Rheilffordd a gyda’r aelodau lleol. Eglurodd y Pennaeth yn y cyfarfodydd yma beth oedd y canfyddiadau ag sut y rhagwelai y gellid cyrraedd datrysiad. Yn ystod y cyfnod yma, rhoddwyd atebion i nifer o gwestiynau a phryderon oedd yn codi gan geisio egluro lle y gallai'r Cyngor fod yn fwy cadarn ynglŷn â dal eu tir a lle y byddai yn well cyfaddawdu.

6. Cafwyd arweiniad gan yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas â hawliau statudol y Cwmni Rheilffordd ac roedd hyn yn ddylanwadol wrth lunio safbwynt y Cyngor. Cydnabyddir bod yr hawliau yma yn eang ac nad oes ganddynt angen caniatâd y Cyngor i ymgymryd â rhai gweithgareddau sy’n berthnasol i redeg a chynnal rheilffordd.

7. Ar sail yr wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cwmni ynglŷn â pha weithgaredd y byddent yn ei gynnal ar y tiroedd dan sylw, ni welir bod bwriad i wneud dim fyddai tu hwnt i’w hawliau nac yn groes i bolisïau’r Cyngor. Mae swyddogion y Cyngor wedi rhoi arweiniad cwbl glir i’r Cwmni mewn perthynas â gweithgareddau allai fod angen caniatâd e.e. caniatâd cynllunio o ran defnydd o’r tir a’r angen i sicrhau nad yw mwynderau trigolion lleol yn cael eu heffeithio yn andwyol. Cafwyd sicrwydd gan y Cwmni y byddent yn parchu'r arweiniad yma a'u bod yn deall y byddai swyddogion y Cyngor yn monitro gweithgaredd ar y safle ac yn ymateb i unrhyw gwynion lleol y byddai'r Cyngor yn eu derbyn.

8. O ran ymgynghori lleol, nid yw materion cyfnewid tir o’r math yma fel arfer yn destun ymgynghori eang ac yn yr achos yma gellid dweud bod mwy wedi ei wneud nag arfer drwy’r drafodaeth gyda’r aelodau lleol. Wrth gwrs pe byddai'r Cwmni yn dymuno defnyddio'r tiroedd i bwrpas gwahanol yna byddai rhaid iddynt ddilyn y prosesau cywir i gael caniatâd ac fe fyddai ymgynghori yn rhan o hynny.

9. Mae’r Adran eisoes wedi cydnabod i’r aelodau lleol ac i’r Cyngor Tref na roddwyd digon o hysbysrwydd na rhagrybudd ynglŷn â newidiadau i leoliad safle ailgylchu oedd ar y maes parcio hwn. Mae’r safle ailgylchu bellach wedi symud i safle arall ym Mhorthmadog. Mae’r Adran wedi ymddiheuro am y camgymeriad yma.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT:
**Maes Parcio Llyn Bach, Porthmadog / *Llyn Bach Car Park, Porthmadog***

AELOD CABINET/CABINET MEMBER
**Cynghorydd / *Councillor* Dafydd Meurig**

PENDERFYNIAD/DECISION
I awdurdodi cyfnewid tir trwy gytundeb gyda Cwmni Rheilffordd Ffestiniog ar safle Maes Parcio Llyn Bach, Porthmadog ac i gytuno ar raglen waith ymarferol i hwyluso Rheolaeth effeithiol o'r safle.

*To authorise the exchange of land through agreement with Ffestiniog Railway Company on the site of Llyn Bach Car Park, Porthmadog, and to agree upon a practical programme of work to assist with the effective management of the site.*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION
Nid yw'r aneglurder sy'n deillio o'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy i'r Cyngor nag i'r Cwmni Rheilffordd, gyda anhwylustod yn codi o ran rheolaeth o diroedd y ddwy ochr. Bydd y cytundeb i gyfnewid tir ac i ymgymryd â man welliannau yn galluogi'r ddwy ochr i sefydlu cofnodion perchnogaeth clir ac i dacluso trefniadau rheoli'r safle er budd defnyddwyr maes parcio'r Cyngor, cwsmeriaid y Cwmni Rheilffordd a gwneud defnydd mwy effeithiol o dir a gofod er gweithrediad y Rheilffordd.

*The ambiguity stemming from the current situation is unsustainable for the Council and the Railway Company, with difficulties for both parties arising from the management of the land. The agreement to exchange land and to undertake minor improvements will enable both sides to establish clear land ownership records and to improve the site management arrangements for the benefit of the Council's car park users, the Railway Company's customers, and to make more effective use of land and space for the operation of the Railway.*

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS
Mae hanes hir a chymhleth i'r safle a thiroedd cyfagos yn deillio yn wreiddiol o'r datblygiad i ail agor y rheilffordd rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd newidiadau i'r defnydd a wnaed o rannau o'r tiroedd yn anorfod ond, roedd cryn bellter rhwng safbwynt y Cyngor a safbwynt y Cwmni Rheilffordd ar ddatrysiadau posib. Gwnaed y sefyllfa yn fwy cymhleth oherwydd materion Cynllunio oedd yn ymwneud ar safle a daeth y trafodaethau i ben am gyfnod yn sgil hynny. Yn ystod 2013, ail ddechreuwyd y trafodaethau wrth i'r ddwy ochr sylweddoli y byddai ceisio datrysiad trwy'r drefn gyfreithiol yn hir wyntog a chostus i bawb ac efallai yn dod i ganlyniad na fyddai yn bodloni'r naill ochr na'r llall.

Dros y flwyddyn diwethaf, cynhaliwyd sawl cyfarfod rhwng y Cyngor a'r Cwmni i ystyried opsiynau ar gyfer cyfnewid tir ac ar gyfer gwaith angenrheidiol i hwyluso rheolaeth effeithiol o'r safle, boed yn dir a fydd dan reolaeth y Cyngor neu dir gaiff ei reoli gan y Cwmni Rheilffordd. Yn ystod y cyfnod yma, mae swyddogion y Cyngor hefyd wedi cynnal

trafodaethau gyda'r aelodau lleol i gael barn a mewnbwn i'r broses er ceisio canfod cyfaddawd ac i warchod buddiannau'r gymuned leol. Oherwydd rhai o'r ystyriaethau perchnogaeth tir, bu raid symud y safle ail gylchu i faes parcio ger y Ganolfan Hamdden ym mhen arall y dref a hynny ar amserlen dynn iawn. Er i'r symudiad gael ei weithredu yn llwyddiannus, rhaid cydnabod nad oedd digon o sylw wedi cael ei roi i gyhoeddusrwydd lleol i'w hysbysu o'r symudiad.

Mae ymdrechion hefyd wedi cael eu gwneud i gael sicrhad bod y defnydd fydd yn cael eu gwneud o'r tiroedd yn cael cyn lleied o effaith ag sydd yn bosib ar fwynderau trigolion lleol. Cafwyd addewid gan y Cwmni y byddent yn parchu mwynderau'r trigolion ac yn cadw'r gweithgareddau i rai fyddai yn ymwneud a rheolaeth y rheilffordd ac yn gwneud pob ymdrech i leihau sŵn a rheoli oriau gweithredu. Bydd trefniadau'r gyfundrefn Cynllunio hefyd yn cael eu defnyddio i reoli defnydd o'r safle os bydd angen.

Mae rhaglen o waith ymarferol wedi ei chytuno er hwyluso Rheolaeth a defnydd diogel ac effeithiol o'r safleoedd. Mae'r gwaith yn cynnwys.

- Gosod bar uchder newydd ger y fynedfa.
- Addasu ychydig ar y fynedfa - newid ychydig ar y cyrbiau a symud pyst presennol i alluogi cerbydau trymion i droi i mewn i'r safle, yn cynnwys cerbydau'r Cyngor fydd angen mynediad i'w compownd gerllaw.
- Ail beintio llinellau gwyn ee ildiwch ger mynedfa'r maes parcio
- Gosod arwydd newydd ger y fynedfa i gyfeirio cerbydau i barcio ar faes parcio'r Cyngor a safle / compownd newydd WHR
- Cyfres o arwyddion parcio yn cyfeirio cerbydau i'r maes parcio o'r Stryd Fawr. Bydd yr arwyddion yn cael eu lleoli mewn mannau gwahanol ac rydym yn y broses o gytuno ar ddilyniant yr arwyddion. Bydd yr arwyddion yn cyfeirio traffig i'r ddau safle (compownd /safle parcio WHR a'r Cyngor yn Llyn Bach). Mae'r gwaith i ddatblygu y cynllun arwyddo yn parhau yn destyn trafodaeth rhwng swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr y Cwmni Rheilffordd.
- Gosod arwydd amlwg i'r cyhoedd ar y safle ee gwahaniaethu llefydd parcio ar gyfer y cyhoedd ac ar gyfer cwsmeriaid WHR

Mae cynllun yn dangos manylion y tir i'w gyfnewid a lleoliad y man welliannau wedi eu nodi yn y cynlluniau sydd wedi eu hatodi gyda'r daflen benderfyniad hon.

Bydd y ddwy ochr yn gyfrifol am gyfarfod costau cyfreithiol eu hunain.

Bydd telerau'r trosglwyddiad yn cael eu gosod gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol ac nid oes bwriad i waredu unrhyw eiddo am lai na gwerth y farchnad.

*The site itself and adjacent land have a long and complex history, stemming originally from the development to relocate the railway some years ago. Changes to the use of some parts of the land were inevitable, but there was some divergence between the views of the Council and the Railway Company on possible solutions. The situation was further complicated due*

*to planning matters relating to the site, and subsequently the discussions ceased for a period. During 2013, discussions were re-opened as both sides realised that pursuing a resolution through the legal system would be lengthy and costly for all concerned, and might result in an outcome that would not satisfy either side.*

*Over the past year, a number of meetings between the Council and the Company have been held to consider options for the exchange of land and for necessary works to facilitate the effective management of the site, whether the land is under the management of the Council or the Railway Company. During this period, Council officers have also held discussions with local members, so that their views and input can be included as part of the process of reaching a compromise while also protecting the interests of the local community. Due to some of the land ownership considerations, the recycling site had to be moved to the car park near the Leisure Centre at the other end of the town, which was completed within a very tight timescale. Although the move was successfully completed, it must be acknowledged that insufficient attention had been given to informing the public locally about the move*.

*Efforts have also been made to gain assurance that the use of land will have as little impact as possible on residential amenities. The Company has promised that it will respect the amenities of residents, and will restrict the activities to those relating to the management of the railway, and will endeavour to reduce noise and manage the hours of operation. Arrangements relevant to Planning procedures will also be used to manage the use of the site if necessary.*

*A practical work programme has been agreed in order to assist with the management and safe and effective use of the site. The work includes:*

- *Install a new height barrier at the entrance.*
- *Minor adaptations to the entrance – minor changes to the kerbs and move the existing posts to enable heavy plant to turn into the site, including Council vehicles that require access to the nearby compound.*
- *Re-paint the white lines e.g. give way near the access to the car park entrance*
- *Install a new sign near the entrance to guide vehicles to park in the Council's car park and WHR's new site / compound*
- *A series of parking signs directing vehicles to the car park from the High Street. The signs will be placed in various locations and we are currently in the process of agreeing on the signage sequence. The signs will direct traffic to both sites (WHR compound / car park and Council car park at Llyn Bach). The work to develop the signage scheme is still under discussion by Council officers and the Railway Company representatives.*
- *Install a prominent public sign on the site e.g. differentiating between public parking spaces and those for WHR customers.*

*Plans showing the details of the land to be exchanged and noting the location of the minor improvements are attached to this decision notice.*

*Both parties will be responsible for meeting their own legal costs.*

*The terms of the transfer will be determined by the Senior Corporate Property Manager and there is no intention to dispose of any property for less than market value.*

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/*VIEWS OF STATUTORY OFFICERS*

### 1. Y Prif Weithredwr/*Chief Executive*:-

“Mae’n amlwg bod y mater hwn wedi bod yn destun trafod helaeth yn lleol a diau na fydd pawb yn gwbl fodlon efo’r datrysiad terfynol. Fodd bynnag, byddai methu â dod i gytundeb ar hwn yn golygu atebion hyd yn oed mwy anfoddhaol. Mae’r ymgais hon i dacluso a dwyn eglurder i’r mater felly i’w groesawu.”

*It is clear that this issue has been discussed extensively locally and certainly not everyone will be wholly satisfied with the final solution. However, failure to reach agreement on the matter means even more unsatisfactory answers. This attempt to tidy up and bring clarity to the issues is welcomed.*

### 2. Swyddog Monitro/ *Monitoring Officer*:-

Mae’r cynllun yn cynnig cyfle i resymoli perchnogaeth a rheolaeth y tir a dod a sicrwydd o ran rheolaeth. Dim sylwadau pellach o ran priodoldeb.

*The Scheme offers the opportunity to rationalise the ownership and management of the land and gives certainty in terms of control. No further comments with regard to propriety.*

### 3. Prif Swyddog Cyllid/*Chief Finance Officer*:-

“Rwyf yn croesawu’r ymdrechion hyn i dacluso’r perchnogaeth tir yn y lleoliad yma; bydd dod i gytundeb fel a amlinellir yn fodd o osgoi costau cyfreithiol sylweddol i’r ddwy ochr. Gellir gweld o’r cynlluniau fod y sefyllfa berchnogaeth gyfredol yn gwneud problemau yn anorfod i’r Cyngor a’r cwmni. Felly, nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad yma.

Deallaf y bydd y cyfnewidiad tir yn golygu lleihad yn nifer y llefydd parcio fydd dan reolaeth y Cyngor, ond oherwydd gwell ansawdd y llefydd parcio y bydd y Cyngor yn eu derbyn trwy’r trosglwyddiad, nid oes disgwyl lleihad arwyddocaol yn incwm y Cyngor. Er mai’r cwmni Rheilffordd fydd yn gyfrifol am gwblhau’r mwyafrif o’r rhaglen waith ar y safle, bydd y costau o osod arwyddion yn disgyn ar y Cyngor. Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan yr Adran Rheoleiddio y bydd unrhyw wariant ar y gwaith arwyddo yn dod allan o gyllidebau presennol y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd.

*I welcome these efforts to clarify land ownership at this location; coming to an agreement as outlined will be a way of avoiding significant legal costs for both sides. It can be seen from the plans that the current ownership situation makes problems inevitable for both the Council and the company. I have therefore no objection to this decision.*

*I understand that the land swap will involve a reduction in the number of parking spaces that will be under the control of the Council, but because of the better quality of parking spaces that the Council will receive through the transaction, a significant reduction in the Council's income is not expected. Although the Railway company will be responsible for completing the majority of the work programme on the site, the cost of placing signs will fall on the Council. I have received confirmation from the Regulatory Department that any expenditure on signage will come out of the existing budgets of the Transport and Street Care Service*".

---

## BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

**Cynghorydd/Councillor Jason Hyumphreys**

Ymddengys ar y dechrau bod y Cyngor wedi datblygu'r darn penodol hwn o dir er ei ddefnydd ei hun. Mae dadleuon cyfreithiol a budd cyhoeddus o blaid ei roi i'r Cwmni yn awr (fel ag yr oedd bryd hynny) i'w ddefnyddio fel maes parcio yn unig. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon o hyd.

Mae'r safle yn anaddas fel pwynt tramwyo ar gyfer gwrthrychau a deunyddiau trwm rhwng ffordd a rheilffordd gan fod hyn yn mynd yn groes i rai egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Unedol, sy'n cael eu trechu o bosib gan statudau San Steffan. Byddwn yn nodi'n benodol pa mor agos yw'r tir i dai cymdeithasol gerllaw, sy'n lloches i'r henoed ac oedolion bregus. Rwy'n awgrymu felly y dylai'r Cyngor a'r Cwmni gydweithredu ymhellach i geisio adnabod a datblygu lleoliad gwell ar gyfer y diben hwn (gyda Rheilffordd Ucheldir Cymru, o bosib).

Fel arall, gan dderbyn bod addewidion ynghylch gweithrediadau a datblygiadau'r dyfodol wedi'u gwneud yn ddidwyll, gellir eu torri'n rhy hawdd gyda'r amddiffyniad oesol fod yr "amgylchiadau wedi newid". Rhaid iddynt gael eu diffinio a'u ffurfioli'n well mewn ymgynghoriad â thrigolion cyfagos a pherchennog yr Hen Felin. Dylai'r Cyngor ddefnyddio'i ddylanwad sylweddol yn nhermau dadleuon i gadw'r tir ac ati.

Nid oes eglurhad i'r bwriad o ailgyfeirio traffig yn yr hinsawdd ariannol presennol oherwydd mae'n bosib y gellid ailgyfeirio incwm parcio o'r Cyngor i'r Cwmni. Byddai hefyd yn arwain at gynnydd mewn traffig ar gyffordd beryglus. Er bod y bwriad yn sôn am ymgynghori pellach rhwng Swyddogion y Cyngor a'r Cwmni, mae Aelodau Lleol a'r gymuned ehangach yn cael eu gadael allan.

Bydd Rheoli Cyrchfannau ym Mhorthmadog yn cael ei ystyried fel rhan o'r Prosiect Partneriaeth Canol Tref. Dylai fod yn gyfle delfrydol i ystyried sut dylid cyfeirio traffig. Felly, rhaid i'r penderfyniad penodol hwn gael ei ohirio.

*It does seem that at the outset, the Council developed this particular piece of land for its own use. There are legal and public interest arguments in favour of conceding it now (as there were then) to the Company for use as a car park alone. I do, however, have some outstanding concerns*.


*The site is unsuitable as a transit point for heavy objects and materials between road and rail because this flies in the face of some principles laid out in the Unitary Development Plan, overridden perhaps by Westminster statutes. I would specifically note the land's proximity to nearby social housing, sheltering elderly and vulnerable adults. I therefore suggest further cooperation between the Council and the Company in identifying and developing a better location for this purpose (with the Welsh Highland Heritage Railway, perhaps).*


---

*Alternatively, while accepting that promises in relation to future operations and developments have been attained and made in good faith, they can too easily be unilaterally broken with the timeless defense of "changes in circumstances". They need to be better defined and formalised in consultation with nearby residents and the owner of the Old Mill. The Council should use it's considerable leverage in terms of arguments for retaining the land etc.*

*The intention of re-routing traffic is inexplicable in the current financial climate because parking revenues could be redirected from the Council to the Company. It will also lead to increased volume at a dangerous junction. While the proposal does mention further consultation between Council Officers and the Company, local Members and the wider community are being left out of the loop.*

*Destination Management in Porthmadog will be considered as part of the Town Centre Partnership Project. It should provide an ideal opportunity to consider how traffic should be routed. This particular decision must therefore be deferred.*

| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE |
|---|---|
|  | 17.01.2015 |




# Llyn Bach Car Park

## Land transfer Summary Table

| | Hectares |
|---|---|
| Land transferred from Ffestiniog Railway to Cyngor Gwynedd | 0.2655 |
| Land transferred from Cyngor Gwynedd to Ffestiniog Railway | 0.1555 |
| **Net gain to Cyngor Gwynedd** | **0.1100** |

## Public Open Space

| | Hectares |
|---|---|
| Public Open Space lost to construction of WHR | 0.0459 |
| Public Open Space provided to compensate for loss | 0.1216 |
| **Net gain to Public Open Space** | **0.0757** |

| REV | DATE | DESCRIPTION | BY | CHK | APP |
|---|---|---|---|---|---|
| A | 07/06/10 | PRELIMINARY ISSUE | | | |

REVISIONS

WELSH HIGHLAND RAILWAY
RAILWAY CONSTRUCTION LTD.


DINAS CONSTRUCTION OFFICE, DINAS, LLANWNDA, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5UP
Tel: 01286 830200 Fax 01286 830630
Email: mail@highrail.co.uk
www.highrail.co.uk


RAILWAY RECONSTRUCTION
RYHD DDU - BEDDGELERT

TITLE
CROSS TOWN LINK
LAND TRANSFER

ORIGINAL SIZE A3

DRAWN RSMcN | CHECKED | PASSED
DATE 07/06/10 | CLIENT'S REF.
SCALE AT A3 1:1250 | AUTOCAD REF.
DRAWING No. S17 - LT - Sk01 | REVISION K




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| D | 24/11/14 | CONSTRUCTION ISSUE | | | |
| | DATE | DESCRIPTION | BY | CHK | APP |

REVISIONS

WELSH HIGHLAND RAILWAY
RAILWAY CONSTRUCTION LTD.

DINAS CONSTRUCTION OFFICE, DINAS, LLANWNDA, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5UP
Tel: 01286 830200 Fax 01286 830630
Email: mail@highrail.co.uk
www.highrail.co.uk

RAILWAY RECONSTRUCTION
RYHD DDU - BEDDGELERT

TITLE
SECTION 17
GAS WORKS SITE
CAR PARKING ARRANGEMENTS ONLY

ORIGINAL SIZE A3

| | | |
|---|---|---|
| DRAWN RSMcN | CHECKED | PASSED |
| DATE 24/11/14 | CLIENT'S REF. | |
| SCALE AT A3 1:500 | AUTOCAD REF. | |
| DRAWING No. S17-GS-CP | | REVISION F |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 24 Chwefror, 2015 |
| **TEITL** | Strategaeth Wastraff: Newid i Gasglu Gwastraff Gweddilliol |
| **PWRPAS** | Adrodd ar brif ganfyddiadau (hyd yn hyn) o weithredu'r drefn yn Ardal Dwyfor |
| **AELOD CABINET** | Cyng. John Wyn Jones |

## 1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod 13 Mai, 2015 bu i'r Pwyllgor Craffu benderfynu craffu effaith y newidiadau ar y dinesydd yn Nwyfor a hynny yn y Pwyllgor Craffu hwn. Mae'r adroddiad hwn i'r pwrpas.

## 2. Cyflwyno'r Newid

2.1 Ar gyfer cyflwyno'r newid sefydlwyd dau dîm sef y Tîm Gweithredol, yn gyfrifol am y Rhaglen Gweithredu, a'r Tîm Ymgysylltu a oedd yn gyfrifol am y Cynllun Ymgysylltu.

2.2 Mae copïau o'r Rhaglen Gweithredu a'r Cynllun Ymgysylltu yn atodol i'r Adroddiad hwn ac maent yn amlygu'r gwaith rhagbaratoi sylweddol a manwl ynghlwm â chyflwyno'r newid; o ddylunio a mesur cylchdeithiau newydd i ddarparu gwybodaeth i drigolion drwy'r post, drwy ymweld, drwy wefannau, papurau newydd a.y.y.b.

2.3 Cychwynnwyd ar y drefn newydd o gasglu gwastraff gweddilliol pob 3 wythnos ar 20 Hydref, 2014. Yn ystod y cyfnod hwn bu monitro gofalus o'r trefniadau ar y ddaear, ymateb i ymholiadau drwy Galw Gwynedd, gwefannau cymdeithasol a.y.y.b.

## 3. Canfyddiadau a Chanlyniadau

3.1 Bu i'r newid gael ei gyflwyno yn ddi-drafferth ac roedd yn amlwg o'r cychwyn bod trigolion Dwyfor yn barod am y newid ac yn deall y trefniadau. Ychydig iawn o finiau roddwyd allan ar y dyddiad anghywir a ni chafwyd llawer o wastraff 'ochr' yn ystod y cyfnod o'i gyflwyno, nac yn ddilynol, hyd yn oed dros gyfnod y Nadolig.

3.2 Fel cam i hwyluso ailgylchu i drigolion, cyflwynwyd Cartgylchu i anheddau (lle yn addas) cyn ac yn ystod cyflwyno'r newid. Dosbarthwyd oddeutu 9000 mewn nifer ac mae'r Cart, erbyn hyn, yn cael ei ddarparu ar dderbyn cais gan drigolion. Er ddim yn angenrheidiol ar gyfer y newid, bu i'r Cart brofi'n llwyddiannus a phoblogaidd iawn.

3.3 Fel y rhagwelwyd, derbyniwyd mwy o ymholiadau gan drigolion yn ystod cyfnod cyflwyno'r newid (gweler ffigyrau Galw Gwynedd yn atodol). Er bod cynnydd yn yr ymholiadau dros y cyfnod, roedd yn llai na'r disgwyl.

3.4 Derbynwyd ychydig ymholiadau drwy wefan y Cyngor a gwefannau cymdeithasol yn ystod y cyfnod ac ymatebwyd pob un.

3.5 Derbyniwyd ceisiadau am wasanaeth casglu cewynnau (sy'n wythnosol) ac am fin gweddilliol mwy o faint gan deuluoedd mawr. Erbyn hyn mae 155 yn derbyn casgliadau cewynnau yn wythnosol a mae 41 eiddo wedi derbyn bin mwy. Mae'r galw am finiau mwy a'r gwasanaeth casglu cewynnau yn is na'r disgwyl.

3.6 Bu i WRAP (drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru) wneud arolwg o gyfranogaeth trigolion Dwyfor i ailgylchu cyn y newid 2 i 17 Hydref a wedi'r newid 15 i 30 Ionawr. Dyma grynodeb o'r canlyniadau:

| **Casgliad** | **Maint y Sampl (Tai)** | **Cyn y Newid** | | **Wedi'r Newid** | | **Gwahaniaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer Tai | % | Nifer Tai | % | Nifer Tai | % |
| Gwastraff Ailgylchu | 1131 | 878 | 77.6% | 950 | 84.0% | 72 | 6.4% |
| Gwastraff Bwyd | 1131 | 589 | 52.1% | 660 | 58.4% | 71 | 6.3% |

3.7 Mae ffigyrau cychwynnol o ran effaith y newid ar berfformiad ailgylchu yn Ardal Dwyfor fel a ganlyn:

| | **Tachwedd 2013** | **Tachwedd 2014** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| Gwastraff Gweddilliol | 5.6kg/tŷ/wythnos | 4.6kg/tŷ/wythnos | Gostyngiad o 22% |
| Gwastraff Ailgylchu | 179 tunnell | 200 tunnell | Cynnydd o 12% |
| Gwastraff Bwyd | 56 tunnell | 71 tunnell | Cynnydd o 27% |

| | **Rhagfyr 2013** | **Rhagfyr 2014** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| Gwastraff Gweddilliol | 5.5kg/tŷ/wythnos | 4.5kg/tŷ/wythnos | Gostyngiad o 22% |
| Gwastraff Ailgylchu | 161 tunnell | 203 tunnell | Cynnydd o 26% |
| Gwastraff Bwyd | 50 tunnell | 68 tunnell | Cynnydd o 36% |

3.8 Nid oes cynnydd o unrhyw sylwedd wedi bod yn yr hyn waredir drwy'r canolfannau ailgylchu (ym Mhwllheli a Rhyngddwyryd) yn ystod y cyfnod cyflwyno.

3.9 Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at godi perfformiad ailgylchu Cyngor Gwynedd o 54% yn Mawrth 2014 i 57% ar ddiwedd Tachwedd, 2014. (Rhaid cyrraedd 58% erbyn mis Mawrth 2016).

3.10 Gyda gostyngiad o 22% mewn gwastraff gweddilliol o 15000 o dai yn Nwyfor, byddai hyn yn ei hunan, yn arbed dros £100k i'r Cyngor mewn costau tirlenwi dros flwyddyn.

## 4. Cyfleuon i Wella/Gwersi i'w Dysgu

4.1 Er bod y newid wedi ei gyflwyno yn ddi-drafferth, mae ychydig faterion lle y gellir ystyried ar gyfer gwella e.e.

- byddai'n ddymunol, ond nid yn angenrheidiol, cyflwyno Cartgylchu i drigolion (lle yn addas) o flaen y newid i gasglu gweddilliol
- dylid casglu ailgylchu/bwyd (yn ogystal â gweddilliol) ar ddiwrnod amgen lle nad oes casglu Diwrnod Dolig/Gwyl San Steffan
- mae angen ystyried calendr maint llai er mwyn arbed costau dosbarthu.

## 5. Prif Ganfyddiadau

5.1 Mae ymateb trigolion Dwyfor i'r newid wedi bod yn arbennig gan na chafwyd fawr o drafferthion na phroblemau yn ei gyflwyno. Mae gwaith rhagorol wedi ei gyflawni gan y gweithwyr a holl staff ynghlwm mewn gweithredu'r trefniadau newydd.

5.2 Mae'r ffigyrau hyd yn hyn yn dangos bod y newidiadau wedi achosi cynnydd sylweddol yn yr hyn mae trigolion Dwyfor yn ei ailgylchu.

Atodiad 1

**RHAGLEN GWEITHREDU**

| AMSERLEN GWEITHREDOL - Cyflwyno newid i'r drefn casgliadau gweddilliol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014** | **WYTHNOS** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Crynodeb o'r dyddiadau allweddol | 2 Mehefin | 9 Mehefin | 16 Mehefin | 23 Mehefin | 30 Mehefin | 7 Gorffennaf | 14 Gorffennaf | 21 Gorffennaf | 28 Gorffennaf | 4 Awst | 11 Awst | 18 Awst | 25 Awst | 1 Medi | 8 Medi | 15 Medi | 22 Medi | 29 Medi | 6 Hydref | 13 Hydref | 20 Hydref | 27 Hydref | 3 Tachwedd | 10 Tachwedd |
| **DWYFOR** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Materion Mewnol (Uned Gwaith)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi'r cylchdeithiau newydd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfarfodydd gyda'r criwiau perthnasol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Edrych ar anghenion fflyd / archebu cerbyd newydd os oes angen | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfarfodydd gyda'r canolfannau ailgylchu - sesiwn briffio | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cytuno ar drefn eithriadau o ran gweithredu - biniau mwy/cewynau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwybodaeth i staff y gwasanaeth ar y rhaglen | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi trefn/cytuno briff o ran casglu gwastraff anghywir | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu'r newid | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dosbarthu bagiau bwyd a delio gyda ceisiadau am finiau a bocsys | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu trefn gefn/monitro cylchdeithiau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Staff ar y cerbydau er sicrhau gwybodaeth o'r cylchdeithiau newydd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Materion Mewnol Tim Ailgylchu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Codi ymwybyddiaeth am y newid roadshows | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi calendr | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi gwybodaeth/ sticer / llythyr / amlen / olwyn wybodaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltu - curo drysau, gollwng pamffledi, hysbysebion, ymweliadau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfarfod briffio gyda Galw Gwynedd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Diweddaru prosesau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dosbarthu Cartgylchu / codi ymwybyddiaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Delio gyda ceisiadau am focsys glas | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Anfon allan y calendr a pecyn gwybodeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Sicrhau trefn weinyddol ar gyfer delio gyda ceisiadau am fod ar y drefn cweynau a chesiadau am fin maint mwy - mewnbwn Galw Gwynedd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dyddiad gweithredol ardal Dwyfor dydd Llun 20fed o Hydref 2014 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trefnu swyddog o'r gwasanaeth fod yn Galw Gwynedd yn ystod yr wythnosau cyntaf o'r newid | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Awdit o broblemau er dilyn fynu gyda ymweliadau gan y tim | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Parhau cyswllt gyda'r trigolion, Aelodau, monitro y drefn, ymateb a problemau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cynllun Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynghorau Cymuned | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grwpiau penodol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ysgolion | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Negeseuon safle We | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymweliadau a Caergylchu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymweliadau a GwyriAD | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Negeseuon twitter a facebook | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Negeseuon papur bro, C&D, Herald | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Radio? | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

**CYNLLUN YMGYSYLLTU**

**Nod y Cynllun:**

Cynyddu'r canran o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a'r gompostio yng Ngwynedd drwy annog a helpu mwy o bobl Gwynedd i ailgylchu a chompostio.

**Amcanion y Cynllun:**


1. **Darparu cymorth ymarferol** i drigolion Dwyfor - newid i bob tair wythnos ac ailgylchu'n gyffredinol
2. **Deall y rhwystrau** sy'n wynebu'r bobl (yn fwy manwl) a beth fyddai'n eu helpu i ailgylchu
3. **Newid ymddygiad** y rhai sydd ddim yn ailgylchu / neu dim yn gwneud digon

| Beth sydd angen ei wneud | Sut? | I bwy? | Camau | Pwy / Pryd? | Cwblhawyd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Darparu cymorth / gwybodaeth ymarferol** | Dosbarthu'r Cartgylchu | Trigolion Dwyfor | 1. Datganiad i'r wasg | Uned Gyfathrebu | ✓ |
| | | | 2. Gwybodaeth ar y wefan | Uned Gyfathrebu | ✓ |
| | Gwybodaeth am newidiadau yn y casgliadau | | 3. Pecyn gwybodaeth | Cychwyn dosbarthu wythnos 06/10 | ✓ |
| | | | 4. Roadshows | 4 x dyddiad mis Medi | ✓ |
| | | | 5. Hysbyseb ar Facebook – codau post ardal Dwyfor yn unig | Uned Gyfathrebu - Cychwyn ar 06/10 | ✓ |
| | | | 6. Curo drysau – Dwyfor (targedu'r cartrefi sy ddim yn ailgylchu | Tim Ailgylchu | ✓ |
| | | | 7. Gwybodaeth i Aelodau / Cynghorau Cymuned | Rhaeadr – Uned Gyfathrebu 26/09 | ✓ |
| | | | | Llythyr – Tîm Ailgylchu 30/09 | ✓ |
| | Gwybodaeth am gymorth ymarferol ar gyfer grwpiau penodol | Teuluoedd mawr | 1. Taflen benodol – cyfeirio at yn y llythyr<br>2. Ffurflen hunan asesiad | Tim Ailgylchu/Uned Gyfathrebu - 20/10 | ✓ |
| | | Teuluoedd a chlytiau | 1. Taflen benodol – cyfeirio at yn y llythyr<br>2. Ffurflen hunan asesiad | Tim Ailgylchu/Uned Gyfathrebu - 20/10 | ✓ |

| Beth sydd angen ei wneud | Sut? | I bwy? | Camau | Pwy / Pryd? | Cwblhawyd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Darparu cymorth / gwybodaeth ymarferol - parhad** | Gwybodaeth am gymorth ymarferol ar gyfer grwpiau penodol | Pobl fregus | 1. Gwasanaeth drws cefn ar gael | Cais drwy Galw Gwynedd | ✓ |
| | | Pobl Tai Gwyliau | 1. Datblygu pecyn iddyn ei rannu efo pobl ar wyliau | Cyfarfod arall gyda'r grŵp yn Abersoch ar 18/12 | ✓ |
| | Adolygu trefniadau Dwyfor | Tai Gwyliau | 1. Cael adborth ar y trefniadau newydd | Pasg? (I'w gadarnhau) | |
| | | Staff gwastraff ac ailgylchu | 1. Canfod beth oedd y negeseuon gan y cyhoedd<br>2. Canfod barn y staff ar beth fyddai'n gwella'r newid | Ionawr a Chwefror (I'w gadarnhau) Cyfarfodydd Tim Ailgylchu, Arweinyddion Tim a 'Tool Box Talks' y gweithlu | Wedi cychwyn, Pennaeth wedi cyfarfod gyda'r staff rheng flaen |
| | Hysbyseb papur newydd (calendr)- Herald, Cambrian, Chronicle | Trigolion Arfon a Meirionnydd | 1. Darparu gwybodaeth am y casgliadau ar gyfer Rhagfyr 2014 a 2015 | Uned Gyfathrebu a Tim Ailgylchu | ✓ |
| | Hysbyseb trefniadau nadolig – canolfannau ailgylchu | Trigolion Arfon, Dwyfor a Meirionnydd | 1. Darparu gwybodaeth am trefniadau nadolig | Uned Gyfathrebu a Tim Ailgylchu | ✓ |
| **2. Deall y rhwystrau** | Deall y rhwystrau i grwpiau penodol – ailgylchu deunyddiau a bwyd | Pobl mewn fflatiau / tai teras Arfon | 1. Cael barn grwpiau ffocws yng Nghaernarfon – cydweithio gyda WRAP | Strategol a Gwella | Disgwyl dyddiad gan yr Aelod Lleol |
| | | Trigolion yn yr ardaloedd targed | 1. Darparu rhestr o ardaloedd | Tim Ailgylchu | ✓ |
| | | Grwpiau diddordeb Bangor | 1. Darparu bwletin i ddiweddaru'r holl grwpiau | Uned Gyfathrebu - Ionawr | |
| | | Myfyrwyr | 1. Trefnu holiadur – dosbarthu yn electronig drwy'r Undeb Myfyrwyr | Uned Gyfathrebu - Ionawr | |
| | | Landlordiaid | 1. Trefnu holiadur – dosbarthu yn electronig i'r landlordiaid | Uned Gyfathrebu - Ionawr | |
| | | Casglu adborth wedi'r newidiadau i'r casgliadau gwastraff gweddilliol – defnyddio'r Panel Trigolion | 1. Casglu adborth drwy holiadur gyda'r Panel Trigolion (Dwyfor yn unig) | Adolygu'r angen ym mis Ebrill | |

| Beth sydd angen ei wneud | Sut? | I bwy? | Camau | Pwy / Pryd? | Cwblhawyd? |
|---|---|---|---|---|---|
| **3. Newid Ymddygiad** | Darparu gwybodaeth mewn ffordd wahanol / cynnal ymgyrchoedd penodol | Ysgolion | 1. Datblygu pecynnau i Ysgolion (cydweithio gyda'r Ysgol werdd) | Tîm Ailgylchu & Uned Gyfathrebu | I'w gadarnhau |
| | | Y cyhoedd | 1. Datblygu'r wefan e.e. checklist manwl i'r wefan / taflen - be ellid ei ailgylchu o fewn categorïau a be ddim + ble mae'n mynd | Tîm Ailgylchu – Hydref – Ionawr | ✓ Taflen bocs glas & bin brown ar y wefan |
| | | | 2. Creu fideo – Diolch i pobl Dwyfor | Uned Gyfathrebu | ✓ |
| | | | 3. Briffio'r wasg – sesiwn briffio i lansio'r Fideo Diolch Dwyfor | Uned Gyfathrebu wedi drefnu digwyddiad ar 16/12 yn Caergylchu gyda'r wasg. | ✓ |
| | | | 4. Creu fideo – Diolch i pobl Dwyfor (staff (Caergylchu, GwyriAD, Tîm Ailgylchu) | Tîm Ailgylchu & Uned Gyfathrebu - Chwefror | |
| | | | 5. Datblygu deunyddiau marchnata – 'cut out' foamex o'r cymeriadau cartwn efo swigen 'Mae_____ yn ailgylchu, ydach chi?" | Uned Gyfathrebu | ✓ |
| | | | 6. Banner Up – Mae Gwynedd yn Ailgylchu, ydach chi? | Uned Gyfathrebu – I gydfynd a'r ymgyrch ysgolion | |
| | | | 7. Sticeri bin – "Mae _____ yn ailgylchu, ydach chi?" | Uned Gyfathrebu – I'w gadarnhau | |
| | | | 8. Cynllun Ysgolion Cynradd – Arwyr Ailgylchu | Chwefror - Uned Gyfathrebu i:<br>- Cynhyrchu poster a deunyddiau marchnata<br>- Cynhyrchu holiadur / sticeri / tystysgrif<br>- Dylunio ac argraffu holiadur | |

Atodiad 3



Ymholiadau Gwastraff ac Ailgylchu ar gyfer Ardal Dwyfor fesul wythnos ers mis Awst 2014
250
200
150
100
50
0
220
208
156
153
138
114
102
100
93
92
91
91
86
85
82
79
78
76
74
72
66
66
64
60
54
52
04.08.14
11.08.14
18.08.14
25.08.14
01.09.14
08.09.14
15.09.14
22.09.14
29.09.14
06.10.14
13.10.14
20.10.14
27.10.14
03.11.14
10.11.14
17.11.14
24.11.14
01.12.14
08.12.14
15.12.14
22.12.14
29.12.14
05.01.15
12.01.15
19.01.15
26.01.15

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **29.1.2015 (Cyfarfod Paratoi)** |
| **TEITL** | **Canolfannau Hamdden Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Mair Rowlands** |
| | |
| **PWRPAS** | **Adrodd i'r cyfarfod paratoi ar gynnydd sydd wedi ei wneud yn dilyn cwblhau adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden a chyflwyno argymhellion adolygiad strategol o ganolfannau hamdden Gwynedd gan "*Just Soloutions*".** |

## 1. Adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden

### 1.1 Cefndir

Pwrpas yr adroddiad ar broffil defnyddwyr y canolfannau hamdden oedd cael :

- dealltwriaeth o natur y boblogaeth mae pob canolfan hamdden yn ei wasanaethu.
- cadarnhau pa grwpiau o bobl - neu segmentau - sy'n cael eu tangynrychioli ymysg yr aelodaeth bresennol.
- gwybod pa ddarpariaeth fesul canolfan sydd angen ei addasu er mwyn denu'r segmentau o dan ddefnyddwyr.
- adnabod pa sianeli cyfathrebu fyddai orau ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd marchnata sy'n anelu i ddenu'r segmentau o dan ddefnyddwyr.

### 1.2 Diweddariad

Yn dilyn cwblhau'r astudiaeth ymchwil defnyddiwyd y canlyniadau i lunio cynllun marchnata unigol ar gyfer pob canolfan. Bydd Swyddog Cyfathrebu a Marchnata Cymunedau'n Iach yn cydweithio â Rheolwyr Ardal Canolfannau Hamdden i adolygu'r cynnydd yn ystod Chwarter 4, 2014/2015 gyda'r bwriad i :

- gadarnhau os yw'r nifer o bobl o'r segmentau gwahanol wedi cynyddu
- adnabod a oes grŵp arall o bobl sydd angen eu denu
- addasu a chyflwyno cynllun marchnata diwygiedig.

## 2. Adolygiad strategol o Ganolfannau Hamdden Gwynedd gan "*Just Soloutions*"

### 2.1 Cefndir

Pwrpas yr adolygiad strategol o Ganolfannau Hamdden Gwynedd a luniwyd gan ymgynghorwyr "***Just Solutions***" oedd i:

- adeiladu ar y gyfres o adolygiadau rheiny wnaethpwyd rhwng 2007-2012
- argymell sut gellir datblygu canolfannau hamdden sy'n addas, effeithlon ac yn gynnialdwy ar gyfer y dyfodol.

- sefydlu sail resymegol a phwrpas i ganolfannau hamdden a'u gwasanaethau yn y dyfodol.
- cynorthwyo Cyngor Gwynedd i lunio opsiynau a strategaeth ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau hamdden i'r dyfodol.

**2.2 Diweddariad**

Yn dilyn adrodd canlyniadau'r adolygiad strategol i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaeth ar 28ain Tachwedd 2013 ac i'r fforymau ardal; lluniwyd cyfres o gynigion arbedion effeithlonrwydd ar gyfer gwasanaeth hamdden. Seliwyd y cynigion ar egwyddorion ac argymhellion yr adroddiad strategol.

Mae'r cynigion arbedion effeithlonrwydd gwerth £1.05 miliwn bellach wedi eu hymgorffori fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor ar gyfer 2014/2015 - 2017/2018 a gymeradwyid gan y Cabinet ar y 16eg o Ragfyr 2014 yn dilyn cyflwyno'r adroddiad cynigion effeithlonrwydd 2015-2016 i 2017/2018.

Rhestri'r isod y cynigion arbedion effeithlonrwydd gyflwynwyd ar gyfer Gwasanaeth Cymunedau Iach:

- Adolygu a Rhesymoli Strwythurau rheoli newydd Canolfannau Hamdden
- Cynyddu lefelau ffioedd
- Adolygu a rhesymoli strwythurau canolog Gwasanaethau Cymunedau Iach
- Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithlon
- Cynnal tiroedd
- Trosglwyddo Neuadd Chwaraeon Arfon, Bangor
- Trosglwyddo Trac Treborth

Ceir disgrifiad byr o bob cynnig yn ogystal â gwybodaeth am effaith ar bobl Gwynedd y nifer o swyddi llawn amser effeithir â'r arbediad cysylltiedig yn yr adroddiad sydd wedi ei nodi uchod.

Mae'r gwaith sy'n ymwneud a gwireddu'r arbediad o £1.05 miliwn yn cael ei hyrwyddo a'i gydlynu gan Fwrdd Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Hamdden (BPTGH) ac yn adrodd ar gynnydd i Banel Cyflawni Y Cynghorydd Mair Rowlands.

Blaenoriaeth BPTGH ar gyfer 2015/2016 fydd canolbwyntio ar raglen waith fydd yn llunio gweledigaeth a chyfeiriad strategol hir dymor ar gyfer Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd a chyflawni'r arbedion nodedig.

Atodiad 1

Sylwadau o’r cyfarfod paratoi (29.1.15) o adroddiad ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn dilyn cwblhau adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden a chyflwyno argymhellion adolygiad strategol o Ganolfannau Hamdden Gwynedd gan Just Solutions.

- Angen mwy o wybodaeth ynglŷn â throsglwyddo Neuadd Chwaraeon Arfon a Thrac Treborth i’r sector breifat - a fydd gwasanaethau yn parhau i gael ei gynnig i’r cyhoedd? Cais i fanylu cyn gweithredu.
  Yr Aelodau yn croesawu bod y sector breifat yn derbyn y gwasanaethau, ond anodd fuasai rhagweld mentrau eraill tebyg tu allan i Fangor.
- Cytuno bod angen i’r Canolfannau gael eu rheoli yn fwy effeithiol
- Rhaid cydnabod bod y Canolfannau Hamdden yn cynnig gwasanaethau ataliol
- Os bydd angen cynyddu lefelau ffioedd, beth yw’r cynnydd sydd ei angen i fod yn gynhaliol? Cais am gostau rhedeg gwasanaeth v incwm.
- Sylw am docyn ‘means tested’ i hyrwyddo defnydd o’r canolfannau i deuluoedd difreintiedig.
- Rhaid ystyried gweithgareddau ‘gwahanol’ - annog hamddena yn ychwanegol i ffitrwydd. Dyfeisgarwch
- Rhannu lleoliadau
- Beth yw rôl Cyngor Cymuned?